Cyfraith Gymunedol y Gogledd
North Wales Community Law

Cymuned Community | Cydraddoldeb Equality | Cyfiawnder Justice

Teitl Swydd:	**Cyfreithiwr Tai / Uwch Weithiwr Achos**
Contract:	Parhaol. Llawn-amser neu ran-amser.
Atebol i:	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol
Cyflog:	£30,000 - £35,000 y flwyddyn, yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad.
Lleoliad:	Mewn swyddfa yng Nghyffordd Llandudno, gydag o leiaf 3 diwrnod yr wythnos yn y swyddfa a gwaith allgymorth ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.

Gwybodaeth am y swydd

Mae Cyfraith Gymunedol y Gogledd yn elusen a sefydlwyd yn 2023 i ddarparu cyngor cyfreithiol am ddim i bobl yng Ngogledd Cymru. Mae gennym dîm bach o weithwyr achos, ac rydym eisiau tyfu ein tîm er mwyn i ni allu cefnogi mwy o bobl. Dyma gyfle cyffrous i rywun sydd eisiau cyfrannu at ein gweledigaeth i wneud yn siŵr bod pawb yng Ngogledd Cymru yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau a'r arbenigedd sydd eu hangen arnynt i gynnal eu hawliau, i frwydro yn erbyn anghydraddoldeb, ac i herio anghyfiawnder.

Rydym yn chwilio am gyfreithiwr neu weithiwr achos profiadol i ddarparu gwaith achos a chyngor arbenigol ynglŷn â thai neu gyfraith teulu dan oruchwyliaeth ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd y swydd wedi'i lleoli yn ein swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno, a bydd angen teithio'n rheolaidd i glinigau allgymorth yn y gymuned yng Ngogledd Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sydd â phrofiad o ddeddfwriaeth dai berthnasol yng Nghymru a chyfreithwyr cymwys sydd â phrofiad o ymgyfreitha sifil gyda chymorth cyfreithiol.

Mae buddion eraill yn cynnwys 35 diwrnod o wyliau blynyddol *pro rata* (gan gynnwys gwyliau banc), pensiwn cwmni ac ymrwymiad i fuddsoddi yn eich datblygiad proffesiynol. Mae llesiant yn un o werthoedd craidd Cyfraith Gymunedol y Gogledd, ac rydym yn cydnabod ein bod ni i gyd yn ffynnu pan fydd ein hanghenion yn cael eu diwallu. Mae'r holl staff yn gallu cael gafael ar ostyngiadau, cyngor ariannol a chyfreithiol am ddim, a chymorth iechyd a llesiant drwy ein rhaglen gynhwysfawr o gymorth i weithwyr.

Cefndir Cyfraith Gymunedol y Gogledd

Ein gweledigaeth yw bod gan bawb yng Ngogledd Cymru fynediad at y gwasanaethau a'r arbenigedd sydd eu hangen arnynt i gynnal eu hawliau, brwydro yn erbyn anghydraddoldeb a herio anghyfiawnder.

Mae Cyfraith Gymunedol y Gogledd yn elusen annibynnol, nid er elw, sy'n ymroddedig i drechu tlodi, hyrwyddo cydraddoldeb, a helpu pawb i greu cymdeithas sy'n fwy teg a chyfiawn. Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim yn y gymuned ynghylch materion sy'n effeithio ar fywydau bob dydd pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru, gan ddefnyddio'r gyfraith fel dull o greu newid cymdeithasol, a rhannu gwybodaeth a sgiliau ar draws y sectorau cyfreithiol ac elusennol.

Ers agor ein drysau yn 2023 rydym wedi
darparu cyngor cyfreithiol arbenigol i bobl mewn angen na fyddai ganddynt fynediad at gyfiawnder fel arall. Rydym wedi ffurfio partneriaethau cydweithio arloesol gyda sefydliadau llawr gwlad sy'n cefnogi unigolion, a gydag elusennau cenedlaethol sy'n herio cyrff cyhoeddus.

Rydym wedi sefydlu proffil cenedlaethol ar draws Cymru a'r DU, gan hyrwyddo hawliau cyfreithiol pobl yng Ngogledd Cymru sydd ar ymylon cymdeithas oherwydd tlodi, gwahaniaethau, neu anfantais. Mae contract cymorth cyfreithiol a ddyfarnwyd yn ddiweddar ar gyfer tai a chyllid Llywodraeth Cymru yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i herio anghyfiawnder ac anghydraddoldeb ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Profiad o ddarparu cyngor a gwaith achos ym maes tai neu gyfraith teulu - gan gynghori a chefnogi cleientiaid drwy'r system gyfreithiol.
- Gallu rheoli llwyth achosion prysur, gweithio dan bwysau a chwrdd â therfynau amser.
- Profiad o brosesau cymorth cyfreithiol, cyflawni targedau ariannol a gofynion cofnodi amser gan ddefnyddio systemau rheoli achosion.
- Sgiliau trefnu, blaenoriaethu a rheoli amser da.
- Profiad o waith amlasiantaethol a gweithio mewn tîm.
- Sgiliau gwrando, llafar ac ysgrifenedig rhagorol, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â grŵp cleientiaid y sefydliad.
- Ymrwymiad i rannu dysgu, sgiliau a gwybodaeth.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a dealltwriaeth ohonynt, a sut maent yn berthnasol i gyngor cyfreithiol.
- Ymrwymiad cryf i weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd Cyfraith Gymunedol y Gogledd.
- Sgiliau TG ardderchog.

Dymunol

- Profiad o ymarfer cyfraith tai yng Nghymru
- Profiad o ddarparu cyngor mewn rannau eraill o gyfraith lles cymdeithasol
- Profiad o ymgyfreitha sifil, gan gynrychioli cleientiaid yn y llys
- Dealltwriaeth gadarn o Reolau Ymddygiad Proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA), safonau'r SQM a Rheolau Cyfrifon y Cyfreithiwr, a'r gallu i'w cymhwyso yn ôl yr angen.
- Profiad o filio am gymorth cyfreithiol (gan gynnwys gwaith ardystiedig), a dealltwriaeth o optimeiddio incwm cymorth cyfreithiol.
- Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg

I Wneud Cais

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **5pm ddydd Gwener 7 Tachwedd 2025.**.
Bydd y cyfweliadau cyntaf yn cael eu cynnal ar-lein, gyda chyfweliadau'r ail gam yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb
Anfonwch e-bost at recruitment@nwcl.cymru gyda theitl y swydd yn y llinell pwnc, ac atodi:

- CV cyfredol
- Llythyr eglurhaol yn disgrifio sut mae eich sgiliau, eich rhinweddau a'ch profiad yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Disgrifiad o'r Swydd
- Ffurflen Monitro Cydraddoldeb wedi'i llenwi

Rydym yn gwerthfawrogi safbwyntiau amrywiol yn ein gwaith ac yn annog ymholiadau a cheisiadau gan bobl o bob cefndir, cymuned, hunaniaeth a phrofiad, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o'r anghydraddoldebau a'r anghyfiawnderau yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch fel rhan o'r broses recriwtio, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at Jayne.Butler@nwcl.cymru.

Os ydych chi eisiau sgwrs anffurfiol am y swydd, anfoniwch e-bost i'n prif weithredwr dros dro, Jayne Butler i drefnu hyn: Jayne.Butler@nwcl.cymru.

Gan edrych ymlaen at glywed oddi wrthych.